

Ein pum Nod Cydraddoldeb ar gyfer 2000-2024 yw:

1. Ymgysylltu â Phreswylwyr er mwyn clywed eu lleisiau a deall ac ymateb i anghenion ein cymunedau.
2. Hybu a hwyluso cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynus.
3. Creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol sydd yn adlewyrchu cymunedau Merthyr Tudful.
4. Sicrhau cydraddoldeb cyflog, ledled Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
5. Deall a hepgor rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gyrchu'n gwasanaethau.

Ein Gweledigaeth Cydraddoldeb ar gyfer Merthyr Tudful yw:

"Bod yn le, lle y mae amrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu a gall bawb gyfranogi, ffynnu a chael cyfle i gyflawni eu potensial yn llawn, yn rhydd o wahaniaethu a rhagfarn."

Pam gwnaethon ni hyn - uchafbwyntiau

Cefnogwyd Cymdeithas Ddiwylliannol Malyali (MMCA) newydd Merthyr a'r lansiad a drefnwyd, Ddydd Sul, 20 Mawrth lle y derbyniodd y grŵp fwydydd sydd yn rhan o'u diwylliant i'w blasu.

Hyrwyddwyd Diwrnod Rhyngwladol y Merched a threfnwyd digwyddiad hunanamddiffyn gan Heddlu De Cymru ar gyfer myfyrwyr Coleg Merthyr Tudful.

Cynhaliwyd digwyddiad bychan yn Red House ar gyfer Mis Hanes LGBT+ sydd yn cael ei gynnal trwy gydol mis Chwefror. Bu dau siaradwr gwadd yn trafod materion yn ymwneud â homoffobia a thrawsffobia ac am bwysigrwydd meithrin cymdeithas oddefgar ac agored. Cafodd adeilad Red House ei oleuo yn lliwiau baner yr enfys a gosodwyd y faner y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig er mwyn dynodi'r mis.

Cynhaliwyd cystadleuaeth, yn genedlaethol ar gyfer pobl ifanc sydd rhwng 11 ac 18 oed ac sydd yn byw yng Nghymru, yn eu hannog i greu darn o gelf er mwyn dathlu'r gymuned LGBTQ+. Y themâu oedd 'dyfod yn fi' neu 'sut all oedolion fod yn gefnogol i bobl ifanc LGBTQ+'.

Parhawyd i gefnogi pobl ifanc, rhwng 11 a 25 oed yn y Fwrdeistref Sirol mewn lleoliadau amrywiol fel ysgolion/darpariaethau addysgol, canolfanau ieuencid a thrwy waith allgymorth.

Cynhyrchwyd a dosbarthwyd 'Canllaw Cymorth ar gyfer Pobl Ifanc' sydd yn cynnwys pynciau a phroblemau y mae disgyblion yn teimlo iddynt ddwysau yn ystod cyfnodau clo COVID-19.

Cefnogwyd oedolion yn y gymuned i fynychu a chwblhau amrywiaeth eang o gyrsgiau a chymwysterau a gynlluniwyd er mwyn annog datblygiad personol ym myd gwaith.

Sefydlwyd Grŵp Hygyrchedd Gwaith. Mae camau gweithredu'r grŵp yn cynnwys creu tudalen gyfeirio ar y fewnwyd ar gyfer staff sydd yn darparu gwybodaeth, dolenni hyfforddiant a chanllawiau i wneud dogfennau'n hygyrch mewn un lleoliad. Cynyddodd ein sgôr hygyrchedd o 40 (anfoddfaol) i 96, sydd yn dynodi sgôr hygyrchedd da ar gyfer defnydd cyffredinol, cadarnhaol i ddefnyddiwr y gwasanaeth. Derbyniodd y grŵp Hyfforddiant Gwneud Gwybodaeth yn Hawdd i'w Darllen a'i Deall.

Rydym yn parhau i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yn lleol. Mae Swyddog Cydgysylltu Rhanbarthol yn cydweithio â phlant y Lluoedd Arfog a'r gwasanaeth Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg yng Nghymru (SSCE.) Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo Gwasanaeth Preswyl yn ystod yr haf, sydd yn rhad ac am ddim ar gyfer plant sydd yn mynychu ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol.

Cefnogwyd 'Mis Plentyn y Lluoedd Arfog,' drwy gynnal Sesiynau Ffitrwydd Teuluol ym Mharc Cyfarthfa. Cymeradwywyd Polisi Hwyluso'r Lluoedd Wrth Gefn ar 2 Mawrth 2022 sydd yn diffinio'n hymrwymiad i gyflogeion sydd yn aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn.

Ddydd Llun, 21 Mehefin 2021, bu baner y Lluoedd Arfog yn cyhwan, i goffau am Ddiwrnod y Lluoedd Arfog.

Cafodd yr Iaith Gymraeg ei hyrwyddo yn ystod y digwyddiad, 'Eisteddfod T' a throswyd y llyfryn 'Being Bilingual' yn animeiddiad. Lanswyd tudalen SHWMAERONMENT ar y cyfryngau cymdeithasol ac rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg er mwyn darparu hyfforddiant yn y gweithle ar gyfer staff a Chynghorwyr.

Parhawyd i gefnogi unigolion sydd ag anghenion tai fel digartrefedd ac sydd yn cysgu yn yr awyr agored.

Ar 30 Medi, darparodd Umbrella Cymru gwrs hyfforddiant Amrywiaeth Rhywedd a Rhywiol a oedd ar gael yn rhithiol ar gyfer staff CBSMT.

Parhawyd i godi ymwybyddiaeth a chyflawni'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'n Cyfrifoldeb Cydraddoldeb yn y Sector Gyhoeddus.

Gallwch weld yr adroddiad llawn ar wefan y Cyngor:
www.merthyr.gov.uk

Agorwyd trac cymunedol yn haf 2021, yn dilyn cais ariannu llwyddiannus gan Merthyr Heini. Mae Trac Cymunedol John Sellwood ar agor i'r cyhoedd, bob penwythnos a gyda'r nosweithiau. Mae defnyddwyr yn cynnwys grwpiau lleol fel clwb cymdeithasol cynhwysol Active Wheels, grwpiau cerdded i redeg a chlybiau chwaraeon fel Clwb Triathlon Merthyr.

Cafodd gwaith hefyd ei wneud i ailwampio'n Cynefino Corfforaethol ar gyfer staff newydd sydd yn rhoi rhagor o bwyslais ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth ac ar Weledigaeth/Gwerthoedd y Cyngor. Bydd yn cydgysylltu â'n polisi dim goddefgarwch tuag at Fwlio ac Aflonyddu a'n Polisi Hunan-barch a Pharch yn y Gweithle.

Gweithredwyd 2 blatfform E-ddysgu; Hyb Sgiliau ar gyfer staff a 'Kallidus' ar gyfer Rheolwyr. Mae'r Hyb Sgiliau'n cynnwys cyfle i staff gyrchu llyfrgell o dros 650 o gyrsiau ar-lein er mwyn eu cynorthwyo i wella a datblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn cynnwys modiwlau ac elfennau sydd yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, lechyd a Llesiant, Gwerthoedd Prydeinig a Datblygiad Personol. Mae Kallidus yn canolbwyntio ar fodiwlau i gefnogi a hysbysu rheolwyr CBSMT mewn meysydd fel rhagfarn anymwybodol, deallusrwydd emosiynol, rheoli gwrthdaro, gwahanol fathau o arweiniad a chydaddoldeb.

Ym mis Mawrth 2022, roedd canolrif y gagendor cyflog ar sail rhywedd yn 0%, felly mae dynion yn CBSMT yn cael eu talu 0% yn fwy na menywod sydd yn golygu am bob £1 y mae dyn yn ei ennill fod menyw hefyd yn ennill £1. Fodd bynnag, ar gyfartaledd mae dynion yn CBSMT yn cael eu talu 2.34% yn fwy na menywod sydd yn golygu am bob £1 y mae pob dyn yn ei ennill, mae menyw yn ennill 98p.

